UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Annwyl Aelod

CYFRIFON YR UNDEB AM 2024

Yn unol ag Adran 32A o'r Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cyfnerthiad) 1992 a chyfarwyddiadau Swyddog Cofrestru Undebau Llafur y mae'n ofynnol i UCAC eich hysbysu o'r manylion isod. Dyma grynodeb o gyfrifon UCAC am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024. Os hoffech weld copi llawn, mae croeso i unrhyw aelod o UCAC gael copi electroneg o'r cyfrifon.

1. Cyfanswm Derbyniadau, Cyfanswm Tâl Aelodaeth a Chyfanswm Taliadau

	£	£	£
INCWM:			
Tâl Aelodaeth a dderbyniwyd		651,378	
Buddsoddiadau		8,688	
Incwm amrywiol		781	
Symudiad ar werth y buddsoddiadau		8,468	
INCWM: CYFANSWM			**669,315**
GWARIANT:			
Gorbenion	(658,349)		
Treth	(1,650)		
Symudiad ar werth y buddsoddiadau	-		
GWARIANT: CYFANSWM			**(659,999)**
GWARGED AM Y FLWYDDYN			**9,316**

ASEDION:

Cyfanswm Asedion Net UCAC ar 31 Rhagfyr 2024 oedd £1,015,034.
Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys Asedion cyfredol o £267,323.

2. Cyflog a Buddiannau'r Ysgrifenyddion Cyffredinol UCAC hyd at 31 Rhagfyr 2024 oedd:

Cyflog:	£58,684
Buddiannau:	£5,464

/trosodd...

3. Talwyd yr Honoraria canlynol:

Trysorydd Cenedlaethol	Dim
Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyflogaeth	Dim

4. Adroddiad yr Archwilwyr i Aelodau UCAC

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol UCAC am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024 sef y cyfrif incwm a gwariant a'r fantolen yn ogystal â'r nodiadau perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â'r polisïau cyfrifo sydd yn y nodiadau a gofynion Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Yr Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), yn cynnwys Safon ar Adroddiadau Ariannol 102, adran 1A "Y Safon ar Adroddiadau Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon".

<u>Ein barn ar y datganiadau ariannol</u>

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:-

- *Yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Undeb ar 31 Rhagfyr 2024 ac o'i warged am y flwyddyn yn diweddu ar y dyddiad hwnnw.*
- *Wedi eu paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig.*
- *Wedi eu paratoi yn unol â Deddf Undebau Llafur a Pherthnasau Diwydiannol (Cydgyfnerthu) 1992.*

Llŷr James
25 Stryd y Bont
Caerfyrddin
SA31 3JS

5. Datganiad i Aelodau

"Gall aelod sy'n bryderus y gallasai peth anghysondeb fod yn cymryd lle, neu wedi cymryd lle, yng ngweinyddiad materion ariannol yr Undeb, gymryd camau gyda'r bwriad o ymchwilio ymhellach, cael eglurhad ac, os yn angenrheidiol, sicrhau rheoleiddio'r gweinyddiad hwnnw.

Gall yr aelod godi unrhyw bryder felly gydag un neu fwy o'r canlynol fel yr ymddengys yn briodol i wneud: Swyddogion yr Undeb, Ymddiriedolwyr Eiddo'r Undeb, Archwilydd yr Undeb, y Swyddog Gofrestru (sydd yn swyddog annibynnol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol) a'r heddlu.

Lle cred aelod bod materion ariannol yr Undeb wedi, neu yn, cael eu gweinyddu yn groes i'r gyfraith neu yn groes i reolau'r Undeb ac ystyria ddwyn achosion sifil yn erbyn yr Undeb neu'r Swyddogion neu'r Ymddiriedolwyr cyfrifol, dylai ystyried cael barn gyfreithiol annibynnol."

6. Rheolau'r Undeb, Rheol 22 – Arolygu Llyfrau

Gall aelod neu aelodau â budd yng nghronfeydd yr Undeb arolygu'r llyfrau ac enwau aelodau yn y Swyddfa Gofrestredig ar unrhyw awr resymol ar roddi rhybudd ysgrifenedig ddeuddeg awr a thrigain ymlaen llaw i'r Ysgrifennydd Cyffredinol.

Yn ddiffuant,

Ioan Rhys Jones
<u>Ysgrifennydd Cyffredinol</u>

Huw Chambers
<u>Trysorydd Cenedlaethol</u>